# Croeso

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru Naturiol Cymru Natural Resources Wales

**Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn archwilio opsiynau i reoli perygl llifogydd tymor hir yn fwy effeithiol yng nghymuned Pwllheli a chymunedau cyfagos, ac i sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli mewn ffordd sydd mor gynaliadwy ag sydd bosibl.**

Rydym yn awyddus i esbonio'r perygl llifogydd tymor hir i'r gymuned a sut mae'r prosiect hwn yn rhoi cyfle i fynd i'r afael â'r peryglon hyn.

Rydym yma i wrando ar eich gwybodaeth a'ch profiadau lleol o lifogydd yn yr ardal er mwyn helpu i lunio'r prosiect hwn. Dewch draw i gael sgwrs gyda'r tîm!



Photo Credit - dronepics.wales

## Perygl llifogydd ym Mhwllheli

Mae rhannau o Bwllheli mewn perygl o ddioddef llifogydd o afonydd ac o'r môr. Rhagwelir y gallai'r perygl o lifogydd, yn enwedig llifogydd o'r arfordir, fod yn sylweddol yn y dyfodol.

Wrth i'r hinsawdd newid, byddwn yn wynebu stormydd a chawodydd trwm yn fwy aml, yn ogystal â chynnydd yn lefelau'r môr. Bydd hyn yn rhoi mwy o bwysau ar yr amddiffynfeydd rhag llifogydd a allai effeithio ar eu perfformiad.


Mae angen inni weithio gyda'n gilydd, gan fod cynnal lefel gyfredol amddiffyniad rhag llifogydd i bobl a chartrefi yn her.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Map yr ardal sy’n cael ei hastudio

**Tref farchnad a chymuned ym Mhen Llŷn, Gwynedd yw Pwllheli.**

Mae ardal yr astudiaeth yn ymestyn o Garreg Y Defaid, i’r de-orllewin o Bwllheli hyd at Abererch yn y gogledd-ddwyrain ac mae’n cynnwys tref farchnad Pwllheli.




Mae’r prosiect hwn yn archwilio opsiynau ar gyfer rhannau o Bwllheli sydd mewn perygl oherwydd llifogydd o afonydd ac o’r môr. Rhagwelir y gallai peryglon llifogydd yn y dyfodol, yn enwedig o’r arfordir, fod yn sylweddol.

# Ein gwaith ym Mhwllheli

**Mae'r prosiect hwn yn adeiladu ar brosiectau ac astudiaethau blaenorol a bydd yn cynnwys asesu ystod o opsiynau tymor hir i leihau'r perygl o lifogydd o afonydd ac o'r môr yn y gymuned leol.**

Byddwn yn ystyried amrywiaeth o ffactorau ar gyfer yr opsiynau y byddwn yn eu hystyried megis cynaliadwyedd, ymarferoldeb a fforddiadwyedd.

Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda natur ac i archwilio cyfleoedd i greu cynefinoedd newydd a gwella bioamrywiaeth yn yr ardal. Efallai y bydd cyfleoedd i adfywio'r amddiffynfeydd cyfredol a mannau cyhoeddus cysylltiedig, gan ddarparu manteision ehangach i'r gymuned leol.

Rydym yn awyddus i weithio gyda'n gilydd i ganfod atebion a all gynnig dyfodol cynaliadwy i Bwllheli.




## Camau'r prosiect

Rydym yn bwriadu sicrhau bod y gymuned a rhanddeiliaid yn cymryd rhan ym mhob cam o'r prosiect.

**Tymor yr Haf 2022 (NAWR)**
**Archwilio'r opsiynau**

Ar hyn o bryd rydym yn sefydlu'r achos dros newid. Rydym yn datblygu rhestr hir o opsiynau gyda rhanddeiliaid a'r gymuned.

**Gaeaf 2022**
**Cyflwyno opsiynau rhestr fer**

Ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r gymuned.

**2023**
**Paratoi'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio**

Byddwn yn adolygu'r rhestr fer o opsiynau ac yn datblygu opsiwn sy'n cael ei ffafrio a chyfleoedd ar gyfer buddsoddi.

**2024**
**Cyflwyno'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio er mwyn ei gymeradwyo**

Bydd cais am gyllid yn cael ei gyflwyno i Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, Llywodraeth Cymru i nodi sut y bydd yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio yn cael ei gyflwyno.

# Perygl Llifogydd Sylfaenol


**Mae'r cynllun yn dangos perygl llifogydd i Bwllheli a'r cymunedau cyfagos heb ystyried presenoldeb amddiffynfa.**

Gellir dod o hyd i fapiau rhyngweithiol CNC yn: **tinyurl.com/2p9yt2vt**

'Llanwol' yw'r perygl o lifogydd o'r môr, 'afonol' yw'r perygl o lifogydd o afonydd.

Chwyddwch i weld eich ardal mewn mwy o fanylder.





## Map Key

**Flood Defences**
- Flood Defence Locations

**Flood Risk from the Sea**
- High
- Medium
- Low

**Flood Risk from Rivers - Extent**
- High
- Medium
- Low

**Flood Risk from Surface Water & Small Watercourses - Extent**
- High
- Medium
- Low


0.5% AEP + newid hinsawdd heb ystyried presenoldeb amddiffynfa (llanwol) a Thebygolrwydd Gormodiant Blynyddol (AEP) o 1% + newid hinsawdd (afonol)

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Rhestr hir o opsiynau

**Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn archwilio opsiynau i reoli perygl llifogydd tymor hir yng nghymuned Pwllheli a'r cymunedau cyfagos yn fwy effeithiol, ac i sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy gymaint ag sydd bosibl.**

Dyma rai o'r opsiynau sy'n datblygu ar y rhestr hir:




## AFONOL

- Opsiynau naturiol i reoli perygl llifogydd
- Codi uchder ffordd A499 mewn mannau
- Gwelliannau i lif cyrsiau dŵr
- Carthu cyrsiau dŵr mewn mannau
- Codi uchder amddiffynfeydd rhag llifogydd
- Atebion sy'n seiliedig ar bwmpio
- Storio llifogydd i fyny'r afon o fewn dalgylchoedd
- Dargyfeirio cyrsiau dŵr

## LLANWOL

- Codi uchder amddiffynfeydd rhag llifogydd
- Gwella amddiffynfeydd harbwr
- Uwchraddio amddiffynfeydd arfordirol cyfredol
- Cyfoethogi twyni tywod a maethu traethau
- Grwynau a morgloddiau
- Adlinio amddiffynfeydd arfordirol sy'n wynebu tua'r tir

## OPSIYNAU ERAILL

**Rydym yn croesawu eich mewnbwn ar unrhyw un, neu ar bob un o'r opsiynau hyn. Rydym yn awyddus i gydweithio i ganfod atebion a all gynnig dyfodol cynaliadwy i Bwllheli.**

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Cadw mewn cysylltiad

Ceir rhagor o wybodaeth am y prosiect yn:

**www.cyfoethnaturiol.cymru/risgllifogyddpwllheli**

Byddwn yn darparu diweddariadau rheolaidd ar y prosiect yn ogystal â chyfle i roi adborth ar-lein.



Photo Credit - dronepics.wales

Cysylltwch â ni os hoffech chi ddarganfod mwy ac er mwyn rhannu eich syniadau a'ch sylwadau â ni.

E: **risgllifogydd.pwllheli@grasshopper-comms.co.uk**

neu drwy ffonio **0300 065 3000**

neu drwy ddefnyddio'r **ffurflen adborth**.